



Cefnogaeth Ariannol SMARTExpertise ar gyfer Prosiect Cydweithredol – FUMIGATE

Cyllid Arloesi yn helpu tîm ymchwil prifysgol i ddatblygu cynnyrch rheoli plâu naturiol arloesol



Mae adran y Biowyddorau ym Mhrifysgol Abertawe wedi cael £196,900 o gyllid gan Lywodraeth Cymru, ar y cyd â phartneriaid yn y diwydiant, i ddatblygu ymchwil i gyfrwng biolegol naturiol a allai chwyldroi dulliau rheoli plâu a rhoi dewis amgen sy'n gynaliadwy ac yn gyfeillgar i'r amgylchedd i dyfwyr yn lle plaladdwyr cemegol.

Gwnaeth y tîm ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe gais am gyllid SMARTExpertise, sy'n cefnogi prosiectau cydweithredol rhwng diwydiant a sefydliadau ymchwil Cymru i helpu i fynd i'r afael â heriau technegol diwydiannol, gan ganolbwyntio ar fasnacheiddio a manteisio ar gynnyrch newydd.

Mae'r cyfansoddion a ddarganfuwyd gan dîm ymchwil Prifysgol Abertawe yn fath o ffyngau sy'n lladd nematodau parasitig planhigion – pryfyn pla microsgopig sy'n achosi colledion i dyfwyr cynydu o dros £150 biliwn yn fyd-eang. Mae'r tîm hefyd wedi cael cyllid gan y cwmni diogelu cynydu Certis Europe B.V. yn ogystal â'r cwmnïau tyfu o Gymru, Maelor Forest Nurseries Ltd a Puffin Produce Ltd.

Gall plaladdwyr traddodiadol fod yn niweidiol i'r amgylchedd, gallant ddifrodi'r haen osôn ac achosi halogiad dŵr sylweddol. Mae'r mygdarthuddion a ddarganfuwyd gan dîm ymchwil Prifysgol Abertawe yn naturiol, yn achosi dim difrod i'r amgylchedd ac nid yn unig yn lladd y plâu a gaiff eu targedu, ond mewn rhai achosion maen nhw hyd yn oed yn hybu tyfiant planhigion iachach, ac o bosib yn cynyddu maint y cnwd.

Mae'r cyllid gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid wedi golygu bod tîm Prifysgol Abertawe wedi gallu datblygu ei ymchwil arloesol drwy benodi tri aelod newydd o staff i ddatblygu cynnyrch naturiol newydd i reoli plâu a'u symud yn nes at y farchnad.

Mae cydweithio â thyfwrwyr hefyd wedi bod yn hanfodol wrth dreialu'r cynnyrch, i gael dau fath gwahanol o ddata: pa mor effeithiol yw'r cynnyrch mewn treialon maes ar gyfer tyfwrwyr, a pha fformatau sy'n gweithio orau i dyfwrwyr mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r tîm ymchwil wedi llwyddo i lunio cynnyrch o gynhwysion amrwd mewn cyfnod o 18 mis. Maen nhw hefyd wedi ennyn diddordeb cwmnïau eraill mewn gwahanol sectorau i arallgyfeirio'r cynnyrch ar gyfer defnydd amgen er mwyn bod o fudd i ragor o bobl yn fyd-eang yn y tymor hir.

Wrth siarad am y prosiect, meddai'r gwyddonydd ac ymchwilydd ar y prosiect ym Mhrifysgol Abertawe, yr Athro Tariq Butt:

“Mae'r cyllid Arloesi wedi ein galluogi i ehangu a chyflymu ein gwaith ymchwil drwy ddod ag aelodau newydd ymroddedig ac angerddol i'n tîm i raddau na fyddai wedi bod yn bosib heb y cymorth ariannol hwnnw. Drwy weithio mewn partneriaeth gyda chwmnïau fel Certis, rydyn ni wedi cael mynediad at safleoedd treialu mawr ledled Cymru ac Ewrop lle gallwn gael adborth uniongyrchol gan dyfwrwyr, sy'n ein symud yn nes at ddod â'n cynnyrch i'r farchnad.

Mae'r gefnogaeth gan y llywodraeth wedi cynyddu ein cyhoeddusrwydd, gan ein gwneud ni'n adnabyddus yn fyd-eang am ein gwaith gyda chynnyrch bioesymegol ac arloesol sy'n wych i'n planed ac o ran buddion economaidd i dyfwrwyr lle mae'r galw'n cynyddu'n barhaus, ond hefyd yn wych i Gymru gael ei hadnabod fel canolfan ragoriaeth ar gyfer marchnad fyd-eang. Mae'n wych i'n tîm ym Mhrifysgol Abertawe gael bod yn gysylltiedig â hynny.”

Mae'r cynnydd byd-eang yma o ran adeiladu ar economi Cymru yn agwedd allweddol ar y **Cynllun Gweithredu ar yr Economi**, ac mae'r tîm ymchwil yn obeithiol y bydd y cymorth maen nhw wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru yn helpu i atgyfnerthu eu safle fel dewis naturiol a chynaliadwy yn lle mygdarthion presennol, gan hybu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth a'u galluogi i arallgyfeirio eu cynnyrch er budd rhagor o bobl yn y **dyfodol**.

Busnes | Business
Cymru | Wales

I gael gwybod mwy am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:

03000 6 03000 | innovation@llyw.cymru
businesswales.gov.wales/cy



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund